

# CYNLLUN PRENTISIAETHAU PERFFORMIO CANLLAWIAU AR GYFER GWNEUD CAIS



Diolch i chi am eich diddordeb yn ein Cynllun Prentisiaeth i Ddawnsyr, a gefnogir gan y Loteri Genedlaethol trwy gyfrwng Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn chwilio am dri myfyriwr sydd ar fin graddio, neu sydd newydd raddio (astudiaethau wedi'u cwblhau ers mis Mehefin 2013), i ymuno â'r cwmni ar gyfer cyfnod ymchwil a datblygu ein cynhyrchiad nesaf, 'Stories from a Crowded Room'.

Er nad os sicrwydd o hynny, mae yna bosibilrwydd hefyd y caiff y prentisiaid eu dewis i ymuno â'r cwmni ar gyfer y daith ddilynol, ac i ymuno â'n tîm Addysg a Chyfranogi.

## Dyddiadau pwysig i'ch dyddiadur:

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 30 Mai 2014, canol dydd
- Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i glyweliad ar ddydd Sadwrn 28 Mehefin 2014 yng Nghaerdydd
- Hysbysir ymgeiswyr llwyddiannus erbyn dydd Gwener 13 Mehefin 2014
- Rhaid i chi fod ar gael ar gyfer y pedair wythnos cyfan: Dydd Llun 8 Medi - Dydd Sadwrn 4 Hydref 2014

## Meini Prawf

### Rhaid i ymgeiswyr fod yn meddu ar y canlynol:

- BA Anrhydedd mewn Dawns neu bwnc perfformio cyfwerth erbyn cychwyn y brentisiaeth
- Sgiliau byrfyfyrrio da
- Gwybodaeth drylwyr o dechneg gyfoes
- Agwedd gadarnhaol at waith

### Sgiliau Dymunol:

- Gallu i chwarae offeryn, canu, sgiliau syrucas, siarad ail iaith ayyb

### Cynhwyswch yr eitemau canlynol gyda'ch cais, os gwelwch yn dda:

1. Curriculum vitae
2. Llythyr o eglurhad
3. Llun ohonoch eich hun (fformat 'head shot')
4. Rîl arddangos neu glipiau byrion
5. Manylion dau ganolwr

### 1. Canllawiau ar gyfer cyflwyno eich curriculum vitae:

Sicrhewch bod eich CV yn gyfredol ac wedi'i deilwra i'r swydd yr ydych yn gwneud cais amdani. Dylech gyflwyno'r CV fel ffeil pdf.

## 2. Canllawiau ar gyfer cyflwyno'r llythyr o eglurhad:

Dylai eich datganiad / llythyr o eglurhad (uchafswm o 500 o eiriau) nodi'r manylion canlynol:

- Crynodeb byr o'ch profiad (gweler y meini prawf uchod)
- Pam ydych chi eisiau bod yn rhan o'n cwmni?
- Beth allech chi ei gyfrannu at y broses o ran creadigrwydd a pherfformio?

## 3. Canllawiau ar gyfer cyflwyno eich llun:

Dylai'r ddelwedd fod yn ddiweddar ac o safon dderbyniol. Dylech ei hatodi neu ei chynnwys yn rhan o'ch CV. Nid oes angen i'r llun fod wedi'i dynnu gan ffotograffydd proffesiynol.

## 4. Canllawiau ar gyfer cyflwyno eich rîl arddangos:

Bydd angen i ni allu gweld clip byr ohonoch chi'n perfformio. Llwythwch eich clipiau i'ch gwe-fan eich hun, os gwelwch yn dda, neu gallwch ddefnyddio gwasanaeth fel Youtube neu Vimeo (sicrhewch bod pob un o'ch dolenni yn ddilys). Nid oes rhaid i'r ffilm fod yn gynhyrchiad proffesiynol; gall fod mor syml â chlip wedi'i ffilmio ar eich ffôn symudol.

- Tua munud o ffilm
- Deunydd solo, o ddewis
- Os yw'r clip yn eich dangos yn rhan o grŵp, gwnewch yn siŵr eich bod yn eich disgrifio'ch hun yn glir (ee ochr chwith, crys coch) a'r adegau yn ystod y ffilm pan fyddwch chi ar y sgrin (ee 2 funud 23 eiliad)

## 5. Rhowch fanylion dau ganolwr:

Nodwch na fyddwn yn cysylltu â chanolwyr tan ar ôl y clyweliad.

Ni chaiff unrhyw geisiadau a wneir drwy asiantau eu hystyried.

**\* Sicrhewch bod eich cais yn dilyn y canllawiau hyn. E-bostiwch eich cais â'r gair 'Prentisiaethau' ym mhwnc yr e-bost at [audition@earthfall.org.uk](mailto:audition@earthfall.org.uk) .**

Edrychwn ymlaen at ddarllen eich cais,



Helen Di Duca

Addysg a Chyfranogiad

Earthfall

Ff: 029 20 221 314

E: [audition@earthfall.org.uk](mailto:audition@earthfall.org.uk)

I weld ein newyddion diweddaraf, dewch i'n gweld ni ar  (Earthfall), neu dilynwch ni ar , @Earthfall